

Ysgrifennwch eich enw yma

Cyfenw

Enwau eraill

Rhif y Ganolfan

Rhif Cofrestru'r Dysgwr

Tystysgrif Gyntaf BTEC
Lefel 1/Lefel 2 Pearson

--	--	--	--	--	--	--

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Celf a Dylunio

Uned 7: Cofnodi ar gyfer Bwriadau Creadigol mewn Celf a Dylunio

Deunydd Asesu Enghreifftiol

Amser: 5 awr

Cyfeirnod y Papur

21357E

Nid oes angen unrhyw ddeunyddiau eraill arnoch.

Cyfanswm
Marciau

Cyfarwyddiadau i ganolfannau

- Mae'r papur hwn yn dasg enghreifftiol er gwybodaeth i'r athro/athrawes.
- Bydd y thema ar gael ar wefan Pearson: www.BTEC.co.uk/2012 ar 1 Mawrth ym mlwyddyn yr arholiad.
- Rhaid dosbarthu'r papur hwn ar dd/05/bbbb a rhaid ei sefyll erbyn dd/05/bbbb. [ffenestr o bythefnos].
- Rydym yn argymhell bod 10 munud cyntaf y 5 awr yn cael ei ddefnyddio fel amser darllen.

S46302A

©2014 Pearson Education Ltd.

1/2/2/



Trowch y dudalen ►

PEARSON

Gwybodaeth i ddysgwyr

Dylech ddarllen y wybodaeth hon cyn dechrau ar eich gwaith ar gyfer yr asesiad. Dylech gyfeirio at y cyfarwyddiadau hyn wrth i chi gwblhau'r gwaith ar gyfer y papur hwn.

Yn ystod y cyfnod o 5 awr, bydd angen i chi:

- darllen y wybodaeth a meddwl sut gallech chi ddefnyddio'r ffynonellau gweledol sy'n cael eu darparu gan yr athro/athrawes
- arbrofi gyda gwahanol ddulliau o gofnodi trwy ymchwilio i gyfryngau, defnyddiau a thechnoleg, a'u defnyddio
- cynhyrchu astudiaethau arsylwi personol (lluniadau, ffotograffau neu gofnodion mewn fformatau eraill) o'r ffynonellau gweledol sydd wedi'u darparu ac yna datblygu'r rhain yn syniadau dylunio, er enghraifft trin delweddu (*image manipulation*), maquettes, cyfuniadau gwahanol o liwiau (*colourways*), lluniadau wrth raddfa ac anodi
- cadw nodiadau o gynnydd, meddyliau, syniadau, newidiadau a phrosesau gwaith trwy anodi yn eich llyfr braslunio, ar ddalennau datblygu neu mewn llyfr log o ddysgu annibynnol
- adolygu eich cynnydd ac ailwerthuso'r syniadau, defnyddiau, prosesau a thechnegau o'ch dewis
- nid oes disgwyl i chi gynhyrchu gwaith gorffenedig, wedi'i gwblhau
- dylech ddangos sut gallai eich gwaith gael ei ddatblygu i fod yn waith gorffenedig, petaech chi'n cael mwy o amser.

Gweithio o dan amodau arholiad:

- byddwch yn gweithio o dan amodau arholiad dan oruchwyliaeth, fel arfer yn eich ystafell gelf a dylunio.

Yn ystod 5 awr yr asesiad, bydd eich athro/athrawes:

- yn dosbarthu'r papur arholiad
- yn gallu rhoi cyngor a chefnogaeth dechnegol i chi
- **ni fydd** yn gallu siarad â chi am eich syniadau creadigol.

Mae briffiau yn ymddangos ar y tudalennau canlynol. Rhaid i chi ddewis UN o'r rhain er mwyn cwblhau eich gwaith ar gyfer y papur hwn.

Gan ddefnyddio'r ffynonellau gweledol sy'n cael eu darparu gan eich athro/athrawes, rhaid i chi gynhyrchu cyfres o astudiaethau arsylwi personol sy'n archwilio'r elfennau ffurfiol mewn **ffurfiau organig**. Dewiswch un o'r senarios isod a datblygwch syniadau dylunio o'ch astudiaethau arsylwi personol cychwynnol. Rhaid i'ch syniadau ddangos eich bwriadau creadigol yn glir.



Celf a Dylunio (Diarnodedig)

Ar gyfer y llwybr diarnodedig mewn celf a dylunio, cewch ddewis unrhyw agweddau ar friffiau'r llwybrau sy'n cael eu rhoi. Byddai'n synhwyrol canolbwyntio ar lwybr rydych chi wedi ei fwynhau ac wedi dysgu amdano yn ystod eich cwrs celf a dylunio.

Llwybrau

Crefftau Dylunio

1. Rydych chi'n ddylunydd gemwaith sy'n dylunio cyfres (*range*) o ddarnau gemwaith ar gyfer casgliad adwerthwr ar y stryd fawr. Bydd y gyfres yn seiliedig ar **ffurfiau organig**. Y gynulleidfa darged ar gyfer y casgliad hwn yw menywod hoff o ffasiwn (*fashion-conscious*) sy'n chwilio am emwaith cyfoes, trawiadol fel darnau i'w gwisgo ar y corff, tlysau (*brooches*), breichledau neu gyffiau a darnau i'w gwisgo o amgylch y gwddf.
2. Rydych chi'n geramegydd (*ceramicist*) sy'n dylunio ar gyfer cyfres (*series*) o lestri (*vessels*) ceramig cerfluniol fydd yn cael eu harddangos mewn oriel gelf leol. Byddwch chi'n defnyddio **ffurfiau organig** wrth greu eitemau fel tebotau, cwpanau, soseri, jygiau, ffiolau (*vases*) a chaniau dŵr (*watering cans*).
3. Rydych chi'n grefftwr sy'n arbenigo ar ddylunio patrwm ar arwyneb (*surface pattern design*). Byddwch chi'n cyflwyno eich dyluniadau i asiant sy'n arbenigo ar ddylunio mewnol (*interior design*) yn seiliedig ar **ffurfiau organig**. Mae cleientiaid yr asiant yn chwilio am ddyluniadau ar gyfer teils, rygiau, carpedi a ffabrigau dodrefnu.

Ffasiwn a Thecstilau

1. Rydych chi'n ddylunydd sy'n datblygu astudiaethau gweledol, yn seiliedig ar **ffurfiau organig**, i'w cyflwyno i'ch asiant. Mae eich asiant yn gweithio gyda siopau adrannol (*department stores*) ac mae cyfres cyfwisgoedd (*accessories range*) y siopau hyn ar gyfer merched yn eu harddegau. Rydych chi'n gallu dylunio esgidiau, bagiau, pyrsiau neu wregysau (*belts*) ar gyfer y gynulleidfa hon.
2. Rydych chi'n ddylunydd tecstilau sy'n datblygu samplau ar gyfer darnau mawr o grog (*hangings*) tecstil unigryw, i'w defnyddio mewn lobiau gwestai. Bydd y gwaith yma yn seiliedig ar thema **ffurfiau organig**.
3. Rydych chi'n ddylunydd ac mae rhywun wedi gofyn i chi gynhyrchu defnyddiau gweledol (*visuals*) ar gyfer casgliad o ddillad plant yn seiliedig ar thema **ffurfiau organig**.



Ffotograffiaeth

1. Rydych chi'n ffotograffydd ac wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu cyfres (*range*) o ddelweddau ffotograffig i'w defnyddio i hysbysebu cyfres (*range*) o ddiodydd meddal ar thema **ffurfiau organig** mewn gŵyl gerddoriaeth.
2. Rydych chi'n ffotograffydd ac wrthi yn datblygu gwaith gweledol ar gyfer calendr ar thema **ffurfiau organig**. Mae'r calendr wedi cael ei gomisiynu gan grŵp ieuencid lleol.
3. Rydych chi'n ffotograffydd ac wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu delweddau o **ffurfiau organig** i ddarlunio (*illustrate*) erthygl ffasiwn am ddillad ar gyfer tymhorau gwahanol y flwyddyn.

Dylunio Cynnyrch

1. Rydych chi'n ddylunydd ac wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu dyluniadau ar gyfer cyfres (*range*) o oleuadau, wedi eu hysbrydoli gan **ffurfiau organig**, ar gyfer cwmni adwerthu mawr sy'n gwerthu goleuadau. Gall y gyfres gynnwys goleuadau bwrdd neu wal ar gyfer ystafelloedd gwastai moethus, neu oleuadau i blant i'w gosod wrth ochr y gwely.
2. Rydych chi'n ddylunydd sy'n datblygu syniadau ar gyfer cyfres o ddodrefn lliwgar a llachar yn seiliedig ar **ffurfiau organig**. Bydd y dyluniadau'n cael eu defnyddio mewn siopau dodrefn sydd wedi eu hanelu at bobl ifanc.
3. Rydych chi'n ddylunydd ac mae cadwyn o ganolfannau garddio wedi gofyn i chi ddarparu syniadau ar gyfer cyfres o ddodrefn i'r ardd, yn seiliedig ar **ffurfiau organig**. Mae'r cleient wedi awgrymu bod tuedd (*trend*) i ddefnyddio defnyddiau a siapiau anarferol.

Celfyddydau Gweledol

1. Rydych chi'n ddarlunydd (*illustrator*) ac wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu cyfres o astudiaethau ar gyfer llyfr yr wyddor (*alphabet*) i blant, yn seiliedig ar **ffurfiau organig**.
2. Rydych chi'n artist gweledol ac mae rhywun wedi gofyn i chi gyflwyno cyfres o astudiaethau ar gyfer murlun (*mural*) yn y parc lleol, ar thema **ffurfiau organig**. Maint terfynol y murlun fydd 4 m x 12 m.
3. Rydych chi'n gerflunydd (*sculptor*) sy'n cyflwyno syniadau cychwynnol ar gyfer comisiwn celf cyhoeddus sydd yn seiliedig ar **ffurfiau organig**. Gallwch gyflwyno lluniadau a maquettes. Mae disgwyl i'r cerflun terfynol sefyll ar ei ben ei hun a bod o leiaf 10 m o uchder.



Cyfathrebu Gweledol

1. Rydych chi'n ddylunydd graffig ac wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu cyfres o astudiaethau ar gyfer gwefan, yn seiliedig ar **ffurfiau organig**, ar gyfer cwmni lleol sy'n cynnig gwybodaeth i dwristiaid.
2. Rydych chi'n ddylunydd mewn cwmni dylunio graffig. Gofynnwyd i chi greu astudiaethau ar gyfer defnydd pacio (*packaging*) ar gyfer cyfres (*range*) o gynhyrchion, yn seiliedig ar **ffurfiau organig**. Bydd eich cynhyrchion yn rhan o ddewis rhatach (*value range*) a bydd angen defnyddio palet lliw cyfyngedig (*limited*).
3. Rydych chi'n animeidddydd ac wedi cael eich comisiynu i gynhyrchu cyfres o ddefnyddiau gweledol (*visuals*)/byrddau stori ar gyfer fideo gwybodaeth fer sy'n annog mwy o bobl i ddilyn ffordd iach o fyw. Mae eich cleient yn chwilio am gymeriadau wedi'u hanimeiddio, yn seiliedig ar **ffurfiau organig**, fydd yn apelio at gwsmeriaid sy'n blant ac yn bobl ifanc.

Diwedd y Papur

